

# Croeso Cymru


## 6 awgrym ar gyfer gweithio gyda Croeso Cymru


Hydref 2023

# 1 —Cofrestrwch i ddefnyddio gwefan asedau am ddim Brand Cymru Wales.




---

**01**

[Portal | Visit Wales]

**02**

[Hawlfraint]

## 2 —Ymunwch a'r cynllun graddio i wneud y gorau o'ch cofnod gwefan Croeso Cymru.

## 01

Mae angen i fusnesau llety gael eu hachredu drwy naill ai Croeso Cymru neu'r AA. Argymhellir bod atyniadau'n cymryd rhan yn y Cynllun Sicrhau Ansawdd Atyniadau i Ymwelwyr. Dylai darparwyr gweithgareddau gwblhau'r ffurflen ddarparwr gweithgaredd.

Sêr Graddio Ansawdd | Drupal (gov.wales)

## 02

Sicrhewch eich bod yn arddangos y plac graddio cywir ar eich sefydliad a logo electronig ar eich gwefan. Am ragor o wybodaeth ar logos a phlaciau, e-bostiwch quality.tourism@gov.wales.

Visit Wales — Hen arwydd / Legacy branding


Cymru Wales — 2016 ymlaen / 2016 onwards

## 03

Os oes gennych ddigwyddiad yr hoffech ei ychwanegu at y wefan, darllenwch ein Meini Prawf Digwyddiadau Events Criteria.

Os yw eich digwyddiad yn bodloni'r meini prawf cysylltwch â vw-steward@nvg.net gyda'r manylion.


visitwales.com
Cynghorion da ar sut i greu cofnod da
Ebrill 2022


1.1 —Sut mae diweddaru'r wybodaeth amdana i ar visitwales.com?

Bydd angen ichi fewngofnodi ar https://rhestrucynnyrch.cymru i ddiweddaru manylion eich busnes, gan gynnwys y disgrifiad, y lluniau a'ch cyfleusterau.

Bydd angen eich ID Cyswllt, eich enw defnyddiwr a'ch cyfrinair. Gallwch lenwi pob rhan o'ch cofnod trwy fewngofnodi'n ddiogel heb help y Stiwardiaid Data, er eu bod wrth law rhag ofn y bydd angen eu help arnoch chi.

1.2 —Cymorth

Os oes gennych gwestiynau cyffredinol, cysylltwch â Stiwardiaid Data Croeso Cymru vw-steward@nvg.net | 0330 808 9410 neu drwy sgwrs fyw.

Os gwelwch broblem, dilynwch y camau hyn:


01 Darllenwch y cofnod amdanoch chi ar y Rhestr Cynnyrch

02 Cysylltwch â'r Stiward Data gan ddefnyddio'r manylion cysylltu uchod


03 Bydd y Stiward Data'n ymchwilio i'r mater ac yn cael sgwrs â chi

04 Os nad oes modd ei datrys, bydd y Stiward Data'n nodi amgylchiadau'r broblem

05 Os yw'n fater newydd, bydd y Stiward Data'n anfon y manylion at brif swyddog data Croeso Cymru



# 2 —Edrychwch ar gyfleoedd i weithio gyda Theithio Masnach a Digwyddiadau Busnes.





## 01

[Awgrymiadau am gofnod da (visitwales.com)]


## 02

[Gweithio gyda Croeso Cymru | Drupal (gov.wales)]





## 03


[Gweithio gyda Ni / Digwyddiadau Busnes yng Nghymru / Cwrdd yng Nghymru]




## 3 —Cofrestrwch i'n cylchlythyr a chyfryngau cymdeithasol.



# 4 —Gweithiwch gyda Croeso Cymru i rannu newyddion cynnyrch.

## 01


Mae busnesau sy’n rhan o’r cynllun graddio yn cael cyfleoedd i weithio gyda Croeso Cymru ar ymweliadau gan y wasg/cyfryngau, a chael cynnwys dolenni yn ôl i’w tudalennau busnes ar ein gwefan.

## 02

Mae cyfleoedd i fusnesau sy’n rhan o’r cynllun graddio gael eu cynnwys mewn erthyglau ar ein gwefannau


## 03

**Rhannwch eich cynnwys** – mae’n rhoi gwybod i Croeso Cymru beth sy’n newydd wrth gynllunio cynnwys ar gyfer y wefan a’n sianeli cymdeithasol, a rydym ni hefyd yn rhannu’r wybodaeth gyda thîm ehangach Croeso Cymru.










## 04

Anfonwch eich newyddion, straeon, gwybodaeth am becynnau a digwyddiadau atom trwy e-bostio: productnews@llyw.cymru

## 05

Gweithio gyda ni | Twristiaeth yng Nghymru | Croeso Cymru

## 5 —Cofrestrwch i dderbyn cylchlythyr i’r diwydiant a dilynwch ni ar ein cyfrif Twitter i’r diwydiant.


**01**

Mae’r holl wybodaeth ar y sianeli hyn.

**02**

Mae Tîm Ymchwil a Mewnwelediadau Croeso Cymru yn cyhoeddi adroddiadau a data ar alw ymwelwyr, rhagolygon y farchnad a pherfformiad busnes yn rheolaidd. Cyhoeddir y rhain ar wefan Llywodraeth Cymru a roddwyd rhybudd am yr adroddiadau diweddaraf yng nghylchlythyr y diwydiant. Os ydych ag unrhyw ymholiadau ymchwil cysylltwch â’r tîm ymchwil – [tourismresearch@gov.wales](mailto:tourismresearch@gov.wales)




**03**

[Cylchlythyrau Diwydiant Twristiaeth](#)

**04**

[@croesocymrubus](#)



## 6 — Tyfu gwerthiant gyda Tourism Exchange Great Britain (TXGB) a Siop VisitBritain.




### 01

Platfform digidol yw TXGB sy'n dwyn ynghyd fusnesau twristiaeth i hybu gwerthiant a hybu cynhyrchiant drwy gysylltu'r farchnad mewn modd newydd ac unigryw.

### 02

Gall pob busnes twristiaeth gan gynnwys llety, teithiau, digwyddiadau, gweithgareddau ac atyniadau ddefnyddio'r platfform.

### 03

Nid oes ond angen talu am eich archebion, dim costau ymlaen llaw.

### 04


Llenwch y ffurflen Mynegi Diddordeb am fwy o fanylion ynglun a TXGB.


### 05

Gallwch gyrraedd cynulleidfaoedd rhyngwladol a domestig newydd ar Siop VisitBritain.

### 06

Byddwch yn rhan o ymgyrchoedd hyrwyddo a allai fod yn fuddiol iawn i chi.



Diolch

WG48622 / © Hawlfraint y Goron 2023